

Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10:30am ar 1 Chwefror 2016 yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

Gweinidogion a oedd yn bresennol

Carwyn Jones AC	Y Prif Weinidog
Edwina Hart AC	Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

Alex Bevan	TUC Cymru
Tony Brady	Swyddog Unite yng Nghymru ar gyfer y Diwydiant Dur
Paul Byard	Cadeirydd Commerce Cymru
Ben Cottam	Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Heather Eason	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Rob Edwards	Ysgrifennydd Undeb Community yng Nghymru
Steve McCool	Swyddog Cenedlaethol Undeb Community ar gyfer y Diwydiant Dur
Robert Lloyd Griffiths	Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Mark Judd	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Nigel Keane	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Lowri Morgan	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Martin Mansfield	TUC Cymru
David Morgan	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Keith Palmer	Siambwr Fasnach De Cymru
Ian Price	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain - Cymru
Huw Roberts	Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Martin Warren	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

Ymddiheuriadau

Steven Crabb AS	Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Ian Gallagher	Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Ifan Glyn	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Julie-Ann Haines	Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Mark Harris	Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Emma Watkins	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
Anthony Walters	Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Jonathan Price	Llywodraeth Cymru

Cynghorwyr arbennig a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol

Derek Jones	Yr Ysgrifennydd Parhaol
Andrew Bold	
Tracey Burke	
Jarlath Costello	
Carys Evans	Eitem 5 ar yr agenda
Paul Harrington	Eitem 6 ar yr agenda
Ron Loveland	Eitem 3 ar yr agenda
Huw Morris	
Mick McGuire	
James Price	
Kerry Stephens	Eitem 4 ar yr agenda
Julian Carpanini	Cofnodwr
Huw Griffiths	Cofnodwr

1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

1.1 Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau ac aeth yn ei flaen i nodi'r prif eitemau ar yr agenda.

1.2 Roedd dau bapur i'w nodi, ac maent wedi'u rhestru yn adran 8.

1.3 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai eitem 4 – Swyddi Gwell yn nes at Adref – yn ymddangos cyn eitem 5 – trafodaeth ynghylch Bil Cymru – oherwydd bod angen i'r Gweinidog Cyllid adael i fynychu cyfarfod arall.

1.4 Nododd y Prif Weinidog ymddiheuriadau gan aelodau a chroesawodd y sawl a oedd yn bresennol o Undeb Community ar gyfer y drafodaeth ynghylch y diwydiant dur (eitem 3). Mynegodd ofid ynghylch absenoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru a oedd wedi methu â mynychu'r cyfarfod.

2. Nodiadau a chymau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2015

2.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd gan unrhyw un sylwadau ar nodiadau'r cyfarfod blaenorol ac a oedd unrhyw faterion yn codi ynghylch cywirdeb y nodiadau – ni wnaed unrhyw sylwadau ac ni chodwyd unrhyw faterion. Felly, cytunwyd bod y nodiadau'n gofnod cywir o'r cyfarfod.

2.2 Nododd y Prif Weinidog un cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, a oedd yn ymwneud â chymorth Llywodraeth Cymru i ddatblygu cadwynau cyflenwi, a oedd wedi'i gynnwys fel papur i'w nodi gan yr aelodau.

3. Dur a materion ehangach sy'n ymwneud â'r DU

3.1 Esboniodd y Prif Weinidog fod sawl aelod o'r Cyngor wedi gofyn am yr eitem hon.

3.2 Dywedodd y Prif Weinidog fod y newyddion diweddar gan TATA ynghylch ei weithrediadau yng Nghymru yn ergyd i weithwyr dur TATA a'u teuluoedd yn ogystal â'r sawl sy'n gweithio ym mhob rhan o gadwyn gyflenwi'r cwmni. Esboniodd fod gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â TATA a'i bod yn gweithio gydag undebau llafur i helpu i leihau effaith y cyhoeddiad hwn. Roedd proses ffurfiol ar droed i ymgynghori â'r staff ac roedd gwaith paratoi ar y gweill i gynorthwyo unrhyw weithwyr a fyddai'n colli eu swyddi.

3.3 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y ffaith bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cadeirio cyfarfod Gweithlu lefel uchel y gofynnwyd iddo ystyried camau lliniaru a'r effaith ar yr economi leol a'r gadwyn gyflenwi, a dywedodd y byddai'r Gweinidog yn rhoi adborth i'r Cyngor.

3.4 Cadarnhaodd y Prif Weinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â TATA a soniodd am ystod o faterion a oedd yn cael eu hystyried, a oedd yn cynnwys cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu, ardrethi busnes, cymorth amgylcheddol a hyfforddiant.

3.5 Roedd dau bapur i'r Cyngor eu hystyried – roedd un wedi'i lunio gan Lywodraeth Cymru ac roedd y llall wedi'i ddarparu gan EEF. Roedd sawl maes allweddol:

- Materion sy'n ymwneud ag Ewrop gyfan, gan gynnwys y modd y caiff dur rhad ei ddympio;
- Cryfder y bunt yn effeithio ar fasnach y DU;
- Costau ynni yn y DU o'u cymharu â rhai o wledydd eraill Ewrop.

3.6 Gwahoddodd y Prif Weinidog gyfraniadau gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, undebau Unite a Community a Paul Byard, EEF.

3.7 Rhoddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am gyfarfod cyntaf y Tasglu. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Tasglu yn gweithio'n adeiladol wrth adolygu opsiynau. Byddai'r Arglwydd Bourne yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Tasglu, ar ran Swyddfa Cymru a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r Trysorlys ynghylch sefydlu safle TATA yn Ardal Fenter.

3.8 Roedd Paul Byard yn croesawu agwedd ragweithiol Llywodraeth Cymru a chydnabu y byddai'r Tasglu yn elwa o gyfranogiad Roger Evans, o ystyried ei brofiad gyda Murco. Esboniodd fod y papur yn nodi'r prif faterion a oedd yn effeithio ar y diwydiant, a chyfeiriodd yn benodol at gostau ynni a dur. Byddai'r sector dur yn elwa o weithredu cydgysylltiedig, drwy strategaeth ddiwydiannol gydgysylltiedig, i sicrhau cynaliadwyedd y diwydiant yn y dyfodol.

3.9 Cafodd Steve McCool o Undeb Community ei gyflwyno gan Martin Mansfield. Cyfeiriodd Steve at y modd yr oedd undebau wedi ymgysylltu'n flaenorol yn rhan o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a oedd yn ymwneud â llunio'r agenda ar gyfer y diwydiant dur yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a'r Alban. Roedd yn croesawu camau megis ymestyn rhyddhad ardrethi busnes, ond roedd o'r farn eu bod yn gamau eithaf arwynebol o ystyried y darlun mawr. Roedd yn teimlo mai strategaeth gaffael ar gyfer y DU gyfan oedd yr ateb, a fyddai'n ffafrio defnyddio dur o'r DU mewn prosiectau yn y DU.

3.10 Awgrymodd Steve McCool y byddai cael strategaeth ddur ar gyfer y DU gyfan yn gam ymlaen. Tynnodd sylw at ganlyniad rhoi statws economi marchnad i Tsieina, a oedd yn y bôn yn arwain at gollu miloedd o swyddi yn yr UE. Pwysodd am i waith lobbïo ar y lefelau uchaf yn Llywodraeth y DU ddigwydd er mwyn sicrhau ymrwymiad i ddyfodol y diwydiant. Dywedodd fod TATA yn gwerthfawrogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r diwydiant ond bod y cwmni'n ansicr ynghylch ymrwymiad Llywodraeth y DU.

3.11 Gofynnodd Tony Brady am awgrymiadau ynghylch yr ystod o faterion y dylid eu cyflwyno gerbron Llywodraeth y DU a nododd fod absenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yn golygu mai'r unig beth y gallai aelodau'r Cyngor ei wneud oedd trafod materion allweddol ymysg ei gilydd yn hytrach na gofyn cwestiynau i bobl allweddol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn y DU.

3.12 Cyfeiriodd Rob Edwards at ardoll 13% yr UE ar gynnyrch dur 'rebar', nad oedd yn mynd yn ddigon pell. Roedd angen ymateb mwy cadarn o ystyried bod cynhyrchu dur yn cyfateb i 3% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru – sy'n gyfraniad economaidd sylweddol.

3.13 Dywedodd y Prif Weinidog y gallai'r UE, y DU a Chymru i gyd gymryd camau gweithredu a oedd yn adlewyrchu eu lefelau cyfrifoldeb nhw eu hunain. Effaith gymharol fach yr oedd cam megis rhyddhad ardrethi busnes yn ei chael o gymharu â cham megis lleihau costau ynni. Roedd angen i ddiwydiant dur y DU gael arwydd clir o ymrwymiad y Llywodraeth ar y lefelau uchaf er mwyn ennyn hyder cwmnïau i fuddsoddi yn y dyfodol.

3.14 Roedd Steve McCool o'r farn bod angen gweithredu'n awr i gynnal y diwydiant, a chyfeiriodd at adegau yn y dyfodol pan fyddai angen dur ar gyfer cynlluniau buddsoddi cyfalaf o bwys yn y DU a phan na fyddai diwydiant dur yn bodoli yn y DU i sicrhau budd economaidd. Roedd yntau o'r farn y byddai strategaeth gaffael a gweithgynhyrchu'n elfen allweddol o unrhyw gynllun.

3.15 Nododd Ben Cottam fod hwn yn gyfle i ystyried cadernid y gymuned leol, oherwydd byddai economi fwy amrywiol yn gallu gwrthsefyll anwadalwch yn well.

3.16 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y Morlyn Llanw a'r cyfle enfawr i Bort Talbot gyflenwi'r cynnyrch crai. Nododd fod oedi yng nghyswllt y Morlyn a phrosiectau mawr eraill (megis trydaneiddio rheilffyrdd) yn niweidio'r diwydiant dur ac yn effeithio ar greu swyddi, caffael, twristiaeth a chyfleoedd i gynhyrchu ynni.

3.17 Dywedodd Steve McCool nad yw cymunedau'r diwydiant dur byth yn ffynnu fel o'r blaen ar ôl unrhyw ailstrwythuro mawr, a nododd y perygl y gallai Port Talbot droi'n fan lle mae lefelau diweithdra'n eithriadol o uchel. Dim ond dau waith dur o'r fath sy'n weddill yn y DU – Scunthorpe a Phort Talbot – ac roedd yn bwysig brwydro dros eu dyfodol.

3.18 Cyfeiriodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at gamau gweithredu a oedd ar y gweill i wneud yr economi leol yn fwy amrywiol, a fyddai'n cael eu hysgogi gan statws newydd Port Talbot fel Ardal Fenter. Dywedodd y Gweinidog fod gwaith ar y gweill o safbwynt cadwyn gyflenwi TATA a bod staff TATA yn cael eu hystyried yn weithwyr gwerthfawr pe bai unrhyw rai ohonynt yn colli eu swyddi. Roedd y Gweinidog o'r farn bod cymunedau'r diwydiant dur yn gallu ffynnu fel o'r blaen, a nododd fod adfywiad Glynebwy yn enghraifft o hynny.

3.19 Roedd Rob Edwards yn cytuno â'r pwynt ynghylch defnyddio dur o'r DU mewn prosiectau yn y DU, a chyfeiriodd at dystiolaeth a oedd yn dangos bod dur o safon is na'r hyn sy'n ofynnol yn cael ei fewnforio i'r DU. Nododd y perygl y gallai'r dur hwnnw gael ei ddefnyddio mewn prosiectau megis yr orsaf niwclear newydd yn y gogledd.

3.20 Dywedodd Martin Mansfield fod angen i Lywodraeth y DU weithredu o gofio statws y DU fel aelod-wladwriaeth, gan mai dim ond aelod-wladwriaethau sy'n gallu gwneud ceisiadau am gyllid yr UE megis cyllid y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio.

3.21 Awgrymodd y Prif Weinidog y dylid drafftio nodyn i'w gymeradwyo gan y Cyngor, sy'n pwysu ar Lywodraeth y DU i gofrestru cais am gymorth dan y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio. Cytunodd yr aelodau'n unfrydol â'r awgrym hwnnw. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod y Tasglu hefyd wedi nodi'r ffynhonnell bosibl hon o gyllid.

4. Y diweddaraf am Swyddi Gwell yn nes at Adref

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid y papur fel adroddiad cynnydd ynghylch y llinynnau cyflawni y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn dilyn cynnig TUC Cymru.

4.2 Dywedodd y Gweinidog fod gwaith presennol ar fudd i'r gymuned yng nghyswllt polisi caffael yn magu momentwm, a soniodd fod angen gweithredu ar sail Llywodraeth gyfan a bod gan bartneriaid cymdeithasol rôl i'w chwarae o ran hynny.

4.3 Gellir defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel cyfrwng strategol i gyflwyno contractau sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Roedd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi nodi dau gontract posibl i'w cyflwyno erbyn 2017/18 – y naill ar gyfer gwisgoedd swyddogol a'r llall ar gyfer lloriau. Mae'r ddau gontract yn rhan o waith arfaethedig presennol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, er bod rhagor o waith cwmpasu i'w wneud. Wrth gyflwyno'r contractau hyn, mae'n bosibl y byddai bylchau cyflenwi a fyddai'n cynnig cyfleoedd i gyflenwyr lleol a gweithwyr medrus.

4.4 Roedd Canolfan Cydweithredol Cymru yn gefnogol iawn i'r gwaith hwn ac roedd wedi bod yn gweithio gyda swyddogion i ddatblygu papur opsiynau ynghylch canolfannau cyflogaeth. Er mwyn cynnal y momentwm, roedd Gwerth Cymru yn chwilio am reolwr prosiect penodedig.

4.5 Roedd Martin Mansfield yn falch bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r agenda hon ac roedd yn edrych ymlaen at yr her o safbwynt cyflawni'r gwaith. Rhybuddiodd y byddai angen gwthio ffiniau sy'n ymwneud â deddfwriaeth yr UE. Cyfeiriodd at y budd ehangach i'r DU, sy'n gysylltiedig â llwyddiant y fenter hon, oherwydd gallai alluogi Llywodraeth y DU i ystyried cynorthwyo diwydiannau difreintiedig yn ogystal ag unigolion.

5. Bil Cymru

5.1 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn golygu newidiadau mawr i'n setliad datganoli, a'i bod yn bwysig bod y Cyngor yn ymwybodol o'r drafodaeth sy'n mynd yn ei blaen yn gyflym ynghylch y materion dan sylw.

5.2 Roedd y papur yn esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru a dywedodd y Prif Weinidog na fyddai modd gweithredu Bil Cymru yn ei ffurf bresennol. Roedd yn cyflwyno cyfyngiadau newydd ar allu'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch materion sydd wedi'u datganoli, a oedd yn anghydnaws â chanlyniad refferendwm 2011.

5.3 Mae'r cyfyngiadau newydd yn cynnwys cael caniatâd gan Lywodraeth y DU cyn y gall Gweinidogion Cymru ddeddfu mewn meysydd nad oedd angen caniatâd ar eu cyfer yn flaenorol. Pe bai'r Bil yn cael ei gyhoeddi fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, byddai mewn gwirionedd yn gwthio datganoli tuag yn ôl yng Nghymru, yn cynyddu ansicrwydd ac yn cyflwyno'r risg o her gyfreithiol yn aml mewn modd nad yw'n effeithio ar yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

5.4 Cafodd cymariaethau eu llunio â'r Alban a oedd yn mwynhau lefel uwch o lawer o ymreolaeth. Ym maes y gyfraith roedd Cymru yn awdurdodaeth neilltuol a chanddi gorff neilltuol o gyfreithiau i Gymru, ond nid oedd hynny'n golygu bod angen newid prosesau gan fod llysoedd, er enghraifft, yn adnodd a rennir.

5.5 Roedd y Cyngor yn cefnogi safbwynt y Prif Weinidog, sef na ddylai'r Bil gymhlethu'r setliad na lleihau pwerau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol. Roedd y prif sylwadau a wnaed fel a ganlyn:

- **Sefydliad y Cyfarwyddwyr** – roedd ei aelodau am gael llywodraeth syml, dryloyw ac effeithiol. Roedd y setliad a gâi ei gynnig yn fwy cymhleth o lawer oherwydd ei fod yn cynyddu ansicrwydd ynghylch pa Lywodraeth y dylid troi ati ac y byddai'n arwain at gostau gweinyddu uwch.
- **Cymdeithas y Cyfreithwyr** – dywedodd y Gymdeithas fod Cymru yn haeddu gwell, oherwydd byddai Bil Cymru fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn rhwystro Cymru rhag datblygu yn y dyfodol fel cenedl ac fel economi.

- **TUC Cymru** – roedd yn cefnogi'r model cadw pwerau ac roedd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ddod o hyd i ateb ymarferol i'r problemau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- **Y Ffederasiwn Busnesau Bach** – rhybuddiodd y Ffederasiwn na ddylid tanseilio hyder economaidd Cymru, yn enwedig yn y cyd-destun cystadleuol sy'n bodoli yn y DU, a bod angen i ni ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i ni mor effeithiol ag sy'n bosibl.
- **Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain** – i lawer bydd pwysigrwydd y drafodaeth hon yn dod i'r amlwg yn rhy hwyr.

6. Lle Cymru yn yr UE

6.1 Nododd y Prif Weinidog y byddai pleidiau gwleidyddol Cymru yn canolbwyntio ar yr etholiad yng Nghymru ac esboniodd yr anhawster sy'n gysylltiedig ag ymladd ymgyrch arall pe bai'r refferendwm ynghylch yr UE yn cael ei gynnal ym mis Mehefin. Roedd yr holl fater yn haeddu cael sylw ar adeg well er mwyn hwyluso gwaith ymgyrchu gwleidyddol priodol.

6.2 Nododd Ian Price fod Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain yn ffafrio Ewrop ddiwygiedig a dywedodd fod Llywodraeth y DU yn dymuno cynnal y refferendwm ddiwedd mis Mehefin ond y gallai hynny newid.

6.3 Dywedodd Ben Cottam y byddai mwyafrif aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn dweud y dylai'r DU aros yn yr UE. Fodd bynnag roedd byd busnes am glywed beth yw manteision aelodaeth o'r UE, ac roedd yn bosibl y byddai amseru'r refferendwm yn golygu na fyddem yn elwa o ymgyrch addas.

6.4 Dywedodd y Prif Weinidog fod polau'n awgrymu y dylai'r DU aros yn yr UE. Dywedodd fod angen diwygio'r UE oherwydd nad oedd yn hollol dryloyw o safbwynt rhai agweddau. Pe bai'r DU yn gadael yr UE, byddai angen iddi drafod telerau degau lawer o gytundebau masnach rydd. Ychwanegodd hefyd fod hanner ein hallforion yn mynd i'r UE a'n bod felly'n ddibynnol iawn ar gysylltiadau presennol.

6.5 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths fod barn aelodau Sefydliad y Cyfarwyddwyr ychydig yn fwy amwys, gan ddweud bod angen diwygio'r UE a bod pwnc trafod y refferendwm hwn yn wahanol i bwnc trafod yr un blaenorol.

6.6 Mynegodd Martin Mansfield gefnogaeth i'r UE, gan ddweud y byddai'n drychinebus i'r DU ac i Gymru pe bai'r DU yn gadael yr UE.

7 Papur diweddarau gan y Gweithgor Gweithredol

7.1 Cyflwynodd Tracey Burke bapur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith y Gweithgor Gweithredol. Y prif gynigion oedd y dylai'r aelodau fynegi eu barn ynghylch y modd y mae'r Gweithgor yn gweithredu; y dylid cytuno ar ddyddiad i'r Cyngor gwrdd yn gynnar yn ystod tymor y Llywodraeth newydd; ac y byddai angen penderfyniadau cynnar ynghylch sut y gall y Cyngor gynorthwyo'r Llywodraeth newydd a bod angen strategaeth ddiwydiannol.

7.2 Cytunodd aelodau'r Cyngor yn unfrydol y dylid symud ymlaen ar y sail honno.

8 Unrhyw fater arall

8.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y ddau bapur a oedd i'w nodi, a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am amodau economaidd ac am gyfleoedd o safbwynt cadwynau cyflenwi prosiectau mawr. Gwahoddodd sylwadau yn eu cylch; ni chafwyd unrhyw sylwadau.

8.2 Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.